# SL(6)523 – Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau (Diwygio) 2024

## Cefndir a diben

Fel rhan o'r newid i gerbydau â dim allyriadau ("ZEVs"), sefydlodd Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau 2023 ("Gorchymyn 2023") bedwar cynllun masnachu ledled Prydain Fawr i gyfyngu ar nifer y cerbydau newydd nad ydynt yn ZEVs y gellir eu cofrestru ym Mhrydain Fawr (y "Mandad ZEV"), a'r allyriadau carbon deuocsid o gerbydau o'r fath. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Gorchymyn 2023 yn egluro y bydd y Gorchymyn yn cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau Cymru a'r Deyrnas Unedig ac at nod Sero Net.

Mae'r Gorchymyn hwn yn estyn cwmpas tiriogaethol y cynlluniau masnachu a sefydlwyd gan Orchymyn 2023 i gynnwys Gogledd Iwerddon o 1 Ionawr 2025. Mae hefyd yn gwneud nifer o ddiwygiadau a chywiriadau technegol i Orchymyn 2023 a diwygiadau canlyniadol i gyfraith a gymathwyd

## Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Rhaid i'r drafft gael ei gymeradwyo gan bob un o'r deddfwrfeydd hynny cyn y gellir ei wneud gan Ei Fawrhydi.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg**

Gosodwyd y Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Mae'r Gorchymyn wedi'i wneud yn Saesneg yn unig. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn datgan fel a ganlyn (ym mharagraff 2.2):

> *"Gan mai Senedd y DU fydd yn craffu ar y Gorchymyn, ni ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol creu na gosod yr offeryn hwn yn ddwyieithog."*

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi'r dyfyniadau a ganlyn o'r Memorandwm Esboniadol ynghylch ymgynghori mewn perthynas â Mandad ZEV:

> *"Rhwng 30 Mawrth 2023 a 24 Mai 2023, cynhaliodd Llywodraeth flaenorol y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, ac Adran Seilwaith Gogledd Iwerddon ymgynghoriad cyhoeddus ...yn gofyn am farn ar "fandad cerbyd allyriadau sero (ZEV) a rheoleiddio allyriadau CO2 ar gyfer ceir a faniau newydd yn y DU"...*
>
> *Roedd yr ymgynghoriad hwn yn llywio'r datblygiad ac yn y pen draw daeth VETS i rym [Gorchymyn 2023].* Oherwydd absenoldeb Cynulliad Gogledd Iwerddon yn ystod hydref 2023, er bod yr ymgynghoriad yn cynnig gweithredu Mandad ZEV ledled y DU nid oedd yn bosibl iddo wneud cais yng Ngogledd Iwerddon. Cafodd hyn ei gyfleu yn yr ymateb i'r ymgynghoriad (a gyhoeddwyd ar 28 Medi 2023) ochr yn ochr ag ymrwymiad gan yr Adran Seilwaith (Gogledd Iwerddon), Llywodraeth flaenorol y DU, Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth yr Alban ei bod yn parhau i fod yn fwriad ar y cyd i Ogledd Iwerddon ymuno â Mandad ZEV pe bai cynulliad eistedd yn dewis gwneud hynny. *Mae'r ddeddfwriaeth ddiwygio hon yn gweithredu'r ymrwymiad hwnnw yn ogystal â gwneud diweddariadau technegol a chywiriadau i ddod â'r fframwaith deddfwriaethol i gyd-fynd yn agosach â'r ymgynghoriad a'r ymateb hwn."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 30 Medi 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.